# Yr Ysgol Cerddoriaeth

**Rhaglenni Gradd**
Israddedig 2025



Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

| | |
|---|---|
| Dewiswch Gaerdydd | 1 |
| Pam astudio cerddoriaeth | 2 |
| Astudio gyda ni | 4 |
| Byd o gyfleoedd | 6 |
| Bywyd ar ôl bod yn y brifysgol | 8 |
| Rhaglenni gradd anrhydedd sengl | 9 |
| Rhaglenni gradd cydanrhydedd | 10 |
| Ceisiadau | 11 |

**Roedd 97% o'n graddedigion** mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu wneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs. (Deilliannau Graddedigion, 2019/20*)

*Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, Arolwg Deilliannau Graddedigion 2020/21, cyhoeddwyd gan HESA ym mis Mehefin 2023

Yn cynnwys data gan HESA: Hawlfraint Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch Cyf 2023. Nid all The Higher Education Statistics Agency Limited dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw gasgliadau a wna trydydd partïon o ganlyniad i'w data.

Mae **ein partneriaethau** â phrifysgolion ac ysgolion cerddoriaeth ledled y byd yn caniatáu i chi dreulio **blwyddyn neu semester** yn astudio dramor.

**Ystyrir bod 90% o'n hamgylchedd ymchwil** yn ffafriol i gynhyrchu ymchwil sy'n arwain y byd neu sy'n rhagorol yn rhyngwladol.

Ffynhonnell: Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021

# Dewiswch Gaerdydd

## Rydym yn cynnig amgylchedd bywiog a chefnogol ar gyfer ysgolheictod cerddorol, cyfansoddi, a pherfformio.



Mae Ysgol Cerddoriaeth Prifysgol Caerdydd yn cynnig astudiaethau artistig ac academaidd ysgogol mewn amgylchedd cyfeillgar, cynhwysol a chreadigol.

Drwy ddewis astudio yma, byddwch yn dod yn rhan o gymuned gerddorol glòs sy'n gweithio i'ch ysbrydoli i lwyddo. Byddwn yn eich helpu i ehangu eich gwybodaeth am gerddoriaeth a chryfhau eich sgiliau ymarferol. Byddwn hefyd yn eich annog i chwarae rhan lawn yn ystod eang o weithgareddau ein Hysgol.

P'un a ydych yn ystyried eich hun yn berfformiwr, cyfansoddwr neu ymchwilydd – neu'n gyfuniad o'r tri – byddwch yn gallu dewis o amrywiaeth eang o opsiynau y gallwch eu teilwra i'ch diddordebau creadigol a phroffesiynol eich hun. Ar yr un pryd, byddwch yn cael addysg eang mewn perfformio, cyfansoddi, ethnogerddoleg, cerddoleg a dadansoddi, gydag opsiynau ar gael i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn astudiaethau jazz, cerddoriaeth boblogaidd a cherddoriaeth ffilm.

Byddwch yn elwa o amryw ensembles a digwyddiadau wedi'u harwain gan yr Ysgol a'r myfyrwyr, rhaglen flynyddol o gyngherddau, yn ogystal â chyfleoedd i gwblhau lleoliadau gwaith ac astudio dramor. Mae nifer o'n ensembles hefyd yn cynnal teithiau cyngherddau rhyngwladol ac yn gwneud recordiadau sy'n cael eu gwerthu.

Rydym yn ymfalchïo yn ansawdd ein haddysgu a'r bartneriaeth gref sydd gennym gyda'n myfyrwyr, yn ogystal ag ymroddiad ein staff.

Mae gan ein staff academaidd ddiddordebau eang ac maent wedi ymrwymo i ymchwil gerddorol o ansawdd uchel. Ystyrir bod 90% o'n hamgylchedd ymchwil yn ffafriol i gynhyrchu ymchwil sy'n arwain y byd neu sy'n rhagorol yn rhyngwladol (REF 2021). Mae myfyrwyr hefyd yn elwa o hyfforddiant perfformio arbenigol gan ein tîm ymroddedig o diwtoriaid lleisiol ac offerynnol.

A ninnau wedi'n lleoli yng Nghaerdydd, dinas sy'n ddiwylliannol fywiog ac yn fforddiadwy, rydym mewn lleoliad delfrydol ar gyfer astudio cerddoriaeth. Mae nifer o leoliadau o'r radd flaenaf yn y ddinas, fel Canolfan Mileniwm Cymru, sy'n gartref i Opera Cenedlaethol Cymru a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, a Neuadd Dewi Sant, sy'n cynnal cystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd a chyngherddau gan lawer o gerddorfeydd sy'n ymweld. Rydym yn elwa o gysylltiadau cydweithredol gyda nifer o'r sefydliadau hyn.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y cyfle i'ch croesawu i'n Hysgol ddeinamig ac uchelgeisiol!

**Dr Nicholas Jones**
**Pennaeth yr Ysgol**

# Pam astudio cerddoriaeth?

## Yn y bôn, gweithgaredd cymdeithasol yw cerddoriaeth; mae'n dod â ni at ein gilydd, yn creu cydlyniant cymdeithasol, ac yn ein galluogi i fynegi ein hunain.

Beth bynnag yw'r ffordd rydym yn ymwneud â cherddoriaeth - boed fel cyfansoddwr, perfformiwr, neu wrandäwr - rydym yn cael ein hysgogi gan ei gallu i gyfleu a chyfathrebu; ei phŵer i rannu emosiynau, bwriadau ac ystyron. Gall cerddoriaeth yn ei holl ffurfiau hyrwyddo ymddiriedaeth ac empathi. Gall hefyd ein helpu i ymlacio, rhoi rhyddhad rhag straen, gwella ein hwyliau, a hyd yn oed helpu i leihau poen.

Mae ein rhaglenni gradd yn rhoi cyfle i ymgolli ym myd cerddoriaeth, o gerddoriaeth gelf y Gorllewin, i jazz, cerddoriaeth boblogaidd, a thraddodiadau cerddorol o bedwar ban byd. Maent yn rhoi cyfle i chi nid yn unig i ddilyn eich diddordebau cerddorol penodol, ond hefyd i roi cynnig ar bethau newydd. Byddwch yn dysgu am amrywiaeth o ffyrdd gwahanol o feddwl am gerddoriaeth. O gyfansoddi a pherfformio i arwain, byddwch yn dadansoddi gwahanol elfennau darn o gerddoriaeth, ac yn astudio cyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol cerddoriaeth o amrywiaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau.

Rydym yn hynod falch o'r amrywiaeth eang o gyfleoedd perfformio rydym yn eu cynnig yn yr Ysgol Cerddoriaeth. Mae gennym ystod amrywiol a chyfoethog o grwpiau cerddoriaeth dan arweiniad yr Ysgol, o'r Gerddorfa Symffoni, y Pop Collective, ac Ensemble Drymio Gorllewin Affrica a nifer o grwpiau dan arweiniad myfyrwyr fel y Band Mawr, y Band Pres a'r Gymdeithas Operatig.

Beth bynnag yw eich diddordebau cerddorol, rydych chi'n siŵr o ddod o hyd i ensemble i chi. Byddwch hefyd yn elwa o arbenigedd addysgu offerynwyr a chantorion sydd â gyrfaoedd perfformio rhyngwladol.

Mae ein graddedigion yn gyflogadwy iawn, ac yn meddu ar sgiliau trosglwyddadwy hanfodol sy'n bwysig i gyflogwyr o fewn y proffesiwn cerddoriaeth a thu hwnt iddo. Boed yn berfformio a chyfansoddi, gweithio gydag eraill mewn ensembles, neu ddatblygu dadl gadarn mewn traethodau, mae ein rhaglenni gradd yn eich galluogi i ddatblygu sgiliau mewn arweinyddiaeth, gwaith tîm, cyfathrebu, creadigrwydd, datrys problemau a meddwl yn feirniadol.

Mae graddedigion diweddar wedi mynd ymlaen i yrfaoedd llwyddiannus fel perfformwyr, cyfansoddwyr, athrawon, cynhyrchwyr cerddoriaeth, peirianwyr sain, newyddiadurwyr cerddoriaeth, rheolwyr a gweinyddwyr ym maes y celfyddydau. Mae llawer hefyd wedi cael gwaith y tu allan i'r diwydiant cerddoriaeth, gan gynnwys yn y Gwasanaeth Sifil, y gyfraith, TG, bancio a rheoli.

Mae cerddoriaeth yn drac sain i'n bywydau, yn gydymaith cyson sy'n cyd-fynd â ni drwy gydol ein hoes. Hebddi, byddai'r byd yn lle tawel iawn. Beth bynnag yw eich hoff drac sain, beth bynnag yw eich diddordebau cerddorol, rydym yn gobeithio cael y cyfle i'ch croesawu i'r Ysgol Cerddoriaeth.

**Dr Rachel Moore**
**Cyfarwyddwr Recriwtio a Derbyn Myfyrwyr**





**Dewisais i'r Ysgol Cerddoriaeth oherwydd yr amrywiaeth eang o fodiwlau.**

Mae yna hefyd amrywiaeth o gyfleoedd perfformio, drwy ensembles yr Ysgol, a'r Gymdeithas Gerddoriaeth.

Mae'r Ysgol yn gyfeillgar a chroesawgar, ac mae pob math o gefnogaeth academaidd a bugeiliol ar gael. Rydw i wir wedi mwynhau cymryd rhan mewn ensembles a'r cyfleoedd perfformio sydd ar gael yn yr Ysgol.

**Victoria Agg,** Cerddoriaeth (BMus)


CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

# Astudio gyda ni

## Mae Caerdydd yn brifddinas fywiog gyda thraddodiadau cerddorol cyfoethog.

Mae gan Gaerdydd ddiwylliant cerddorol cyfoethog ac amrywiol, gyda sîn gerddoriaeth fyw sy'n ffynnu a hanes o greu cerddorion o'r radd flaenaf. Mae'r ddinas yn gartref i nifer o leoliadau cerddorol hynod adnabyddus, gan gynnwys Clwb Ifor Bach ac Arena Ryngwladol Caerdydd, sy'n rhoi llwyfan i berfformwyr rhyngwladol mawr yn rheolaidd.

Mae Caerdydd hefyd yn gartref i sawl gŵyl gerddorol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys yr ŵyl enwog Sŵn. Mae treftadaeth gerddorol a sîn gyfoes y ddinas yn ei gwneud yn gyrchfan fywiog a chyffrous i bobl sy'n hoff o gerddoriaeth.

Yn ein hadeilad pwrpasol yng nghanol Caerdydd, mae gennym yr holl gyfleusterau sydd eu hangen arnoch i lwyddo yn eich astudiaethau. Mae'n cynnwys darlithfeydd â thechnoleg fodern i recordio darlithoedd, ystafelloedd seminar, ystafelloedd ymarfer, ystafelloedd ensemble a stiwdios electroacwstig.

### Cyfleusterau perfformio a stiwdio

Mae gennym neuadd gyngerdd sydd â 250 o seddi sy'n cynnal cyngherddau proffesiynol i'r cyhoedd a digwyddiadau wedi'u harwain gan y myfyrwyr trwy gydol y flwyddyn, ac mae ein myfyrwyr yn ei defnyddio'n ddyddiol ar gyfer addysgu ac ymarferion. Mae'r neuadd yn rhan annatod o fywyd a gwaith yr Ysgol, ac mae'n ganolog i'n ensembles, cyfres cyngherddau a pherfformiadau myfyrwyr.

Mae llawer o'r perfformiadau yn ein neuadd gyngerdd yn cysylltu'n uniongyrchol â'n rhaglenni israddedig, ac mae amrywiaeth o berfformwyr proffesiynol gwadd yn aml yn cynnal dosbarthiadau meistr a gweithdai ar gyfansoddi a pherfformio.

Mae ein stiwdios cerddoriaeth wedi'u trin yn acwstig ac mae eu cyfarpar yn cyrraedd safonau'r diwydiant. Yn gysylltiedig â'r brif stiwdio, mae ystafell recordio byw ar gyfer recordio aml-drac, trosleisio a thros-seinio.

### Gwersi offerynnol

Mae myfyrwyr cerddoriaeth yn cael gwersi offerynnol neu leisiol fel rhan o'u cwrs. Mae llawer o'n tiwtoriaid ymarferol yn aelodau naill ai o Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC neu Opera Cenedlaethol Cymru.

Mae hyfforddiant lleisiol neu offerynnol yn cael ei ariannu'n llawn gan yr Ysgol ar gyfer y prif offeryn rydych yn ei astudio, os ydych yn astudio modiwl Sgiliau Cerddorol Ymarferol. Mae hyn yn cynnwys cyfeiliant yn eich datganiad terfynol. Byddwch yn cael 24 gwers hanner awr yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynyddu i 24 gwers awr o hyd yn y flwyddyn olaf, ar gyfer myfyrwyr BMus sy'n cymryd y modiwl datganiad.

### Bywyd myfyrwyr

Mae'r grŵp bach o fyfyrwyr sy'n astudio gyda ni yn gyfeillgar, yn gydweithredol ac yn weithgar iawn.

Mae myfyrwyr yn perfformio ar y cyd yn rheolaidd yn ensembles a chyngherddau dan arweiniad yr Ysgol, ynghyd â grwpiau wedi'u harwain gan fyfyrwyr. Mae'r Gymdeithas Gerddoriaeth, sy'n cael ei harwain gan fyfyrwyr, yn agored i holl fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae'r Gymdeithas yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol, cystadlaethau, perfformiadau a theithiau dramor, ynghyd â chyngherddau amser cinio sydd ar agor i bawb.

### Myfyrwyr rhyngwladol

Rydym yn cynnig darpariaeth eang i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n dod i astudio gyda ni. I'r myfyrwyr y mae Saesneg yn ail iaith iddynt, rydym yn cynnig dosbarthiadau wythnosol bob semester, ynghyd â chyrsiau cyn dechrau pob blwyddyn academaidd.

Hefyd, mae gennym Gynllun Cyfeillio Rhyngwladol ac rydym yn cynnal ciniawau iaith wythnosol, gan ddwyn ynghyd staff a myfyrwyr o bedwar ban y byd a chynnig cyfleoedd i ymarfer ieithoedd, dysgu am wledydd eraill a chreu rhwydweithiau ar draws yr Ysgol.



**Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd oedd fy newis cyntaf allan o'r holl brifysgolion y gwnes i gais iddyn nhw.**

Roeddwn i'n hoffi'r ffaith bod yna lawer o gyfleoedd cerddorol, ac rwy'n teimlo fy mod yn bendant wedi manteisio ar fyw mewn prifddinas.

Rydw i wrth fy modd â'r ffaith bod yr Ysgol Cerddoriaeth yn eithaf bach, mae pawb yn adnabod ei gilydd ac mae'n teimlo fel un rhwydwaith cefnogaeth mawr. Mae Prifysgol Caerdydd wedi rhoi rhai o fy ffrindiau agosaf ac atgofion gorau i mi. Dywedwch ie i bob cyfle sy'n codi a fyddwch chi ddim yn difaru!

**Florence Waddington,**
Cerddoriaeth (BMus)



# Byd o gyfleoedd

Rydym am i chi wneud y mwyaf o'ch gradd, yn y darlithfeydd a thu hwnt. Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i chi roi cynnig ar bynciau newydd a chofleidio arferion a diwylliannau newydd yn ystod eich astudiaethau.

Bydd y rhan fwyaf o'n myfyrwyr yn cael cyfle i astudio dramor fel rhan o'u rhaglen israddedig. Ar hyn o bryd, mae gennym gysylltiadau â phrifysgolion ledled Ewrop, UDA, De-ddwyrain Asia, Awstralia a Chanada.

Mae astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor yn gyfle gwych i ymgolli mewn diwylliant gwahanol, gwneud ffrindiau newydd, dysgu iaith newydd a gwella eich rhagolygon gyrfaol.

Hefyd, bydd treulio amser dramor yn eich helpu i ddatblygu ystod eang o sgiliau trosglwyddadwy y bydd cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi, gan gynnwys bod yn annibynnol ac yn gyfrifol, trefnu a rheoli amser, datrys problemau, sgiliau cyfathrebu, a'r gallu i addasu a gwydnwch.





**Rwy'n cofio colli cymaint o ddagrau yn y maes awyr, gan ffarwelio â ffrindiau a theulu wrth i mi adael i ddechrau fy mlwyddyn mewn gwlad nad oeddwn i erioed wedi bod iddi o'r blaen.**

Yna rwy'n cofio crio hyd yn oed yn fwy wrth ffarwelio â'r ddinas hyfryd, a'r ffrindiau a'r teulu roeddwn yn eu gadael ar ôl yn Helsinki ar ôl y flwyddyn fwyaf hwyl yn fy mywyd hyd hynny.

Ddylai'r rhai sy'n ystyried mynd dramor am flwyddyn ddim meddwl dwywaith amdani. Rydw i wedi tyfu mewn cymaint o ffyrdd, nid yn unig fel cerddor a myfyriwr, ond fel unigolyn yn fwy cyffredinol. Mae'n fraint cael y rhyddid a'r cyfle i gael addysg mewn mwy nag un wlad, ac yn enwedig i allu teithio.

**Jackie Yip,** Cerddoriaeth gyda Blwyddyn o Astudio Dramor (BA 2018)



# Paratoi ar gyfer bywyd ar ôl y brifysgol

Mae eich cyflogadwyedd yn bwysig i ni, ac rydym yn eich annog i feddwl am fywyd ar ôl y brifysgol o'r diwrnod cyntaf. Rydym yma i'ch helpu i ddatblygu'r sgiliau ymarferol a'r hyder proffesiynol sydd eu hangen arnoch i lwyddo yn eich gyrfa.

Rydym yn annog ein myfyrwyr i ddatblygu sgiliau cerddorol a beirniadol sy'n addas i amrywiaeth eang o yrfaoedd a gweithleoedd. Byddwch yn dysgu sgiliau sy'n ymwneud yn benodol â cherddoriaeth fel perfformio, cyfansoddi a dadansoddi, a sgiliau academaidd gan gynnwys rhesymu, y gallu i ddeall, a chyfathrebu llafar ac ysgrifenedig.

Mae tîm Dyfodol Myfyrwyr y Brifysgol hefyd wrth law i gynnig cyngor ac arweiniad pwrpasol ar yrfaoedd. Maent ar gael ar gyfer sesiynau cynllunio gyrfa un-i-un ac ar-lein, ysgrifennu CV, gweithdai sgiliau, a mwy.



## Gwella eich cyflogadwyedd

Mae sgiliau gwaith wedi'u hymgorffori yn ein modiwlau, ac mae ein modiwlau Busnes Cerddoriaeth yn cynnig cyfle i ymgymryd â lleoliad gwaith. Mae myfyrwyr yn ymgymryd â lleoliadau mewn meysydd sy'n cynnwys rheoli artistiaid, rheoli llwyfan, rheoli cerddorfeydd, addysg, therapi cerdd, recordio sain ac ôl-gynhyrchu.

Ymhlith y sefydliadau sydd ynghlwm â'r lleoliadau hyn mae'r BBC, Music Mark, National Youth Jazz Collective, Opera Cenedlaethol Cymru, Southbank Sinfonia, Touch Trust, a Monteverdi Choir & Orchestra.

Mae ein myfyrwyr hefyd yn cael cyfle i weithio neu wirfoddoli dramor drwy wasanaeth Cyfleoedd Byd-eang y Brifysgol.

Mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i fwynhau gyrfaoedd llwyddiannus gyda'r BBC, Cynghorau Celfyddydau, Glyndebourne Opera, Opera Cenedlaethol Lloegr, Oxford University Press, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a'r London Symphony Orchestra, ynghyd ag amrywiaeth o sefydliadau diwydiannol, masnachol, addysgol ac elusennol eraill.



**Rwy'n angerddol am gerddoriaeth, ac roeddwn i'n gwybod fy mod i am ei hastudio ar y lefel uchel y mae Prifysgol Caerdydd yn ei chynnig.**

Roedd y cwrs yn apelio'n fawr gan fy mod i'n mwynhau perfformio, ac mae llawer o gyfleoedd i berfformio.

Cefais gyfle i weithio gyda'r BBC yr haf diwethaf fel rhan o fy modiwl Busnes Cerddoriaeth. Fe wnaeth hynny fy mharatoi ar gyfer bywyd ar ôl y brifysgol gan ei fod wedi rhoi cysylltiadau a phrofiad i mi mewn diwydiant sydd o ddiddordeb i mi.

**Evan Hancock,** Cerddoriaeth (BMus)

# **Rhaglenni gradd** anrhydedd sengl



## Cerddoriaeth (BMus)

**Côd UCAS: W302 neu G85D gyda blwyddyn o astudio dramor**

Ein rhaglen astudio fwyaf manwl, gan ganiatáu i chi ganolbwyntio eich amser i gyd yn astudio ac yn arbenigo ar gerddoriaeth.

Bydd y rhaglen hon yn rhoi hyfforddiant trylwyr i chi ar sgiliau traddodiadol, fel estheteg, dadansoddi, cyfansoddi a pherfformio, ynghyd ag archwilio datblygiadau cyfoes mewn cerddoriaeth a cherddoleg.

Bydd modiwlau craidd yn eich helpu i ddatblygu addysg gerddorol eang a chadarn, gyda modiwlau dewisol yn cynnig cyfle i chi astudio pynciau sy'n cynnwys cerddoriaeth ffilm, ethnogerddoleg a cherddoriaeth boblogaidd, ynghyd â modiwlau ar wahanol gyfnodau, arddulliau a genres cerddoriaeth gelf y Gorllewin.

Gall myfyrwyr ar y rhaglen hon ddewis gwneud modiwlau arbenigol mewn cyfansoddi. Gallwch hefyd wneud modiwl perfformio arbenigol gyda datganiad cyhoeddus yn eich blwyddyn olaf, nad yw ar gael i fyfyrwyr ar ein cyrsiau BA. Mae goruchwyliaeth un-i-un ar gael os byddwch yn dewis dilyn un neu ddau o'r prosiectau ysgrifenedig mawr sydd ar gael ym modiwlau'r Traethawd Hir, Dadansoddi Cerddoriaeth neu Ethnogerddoleg.

## Cerddoriaeth (BA)

**Côd UCAS: W300 neu G84D gyda blwyddyn o astudio dramor**

Addaswch eich astudiaethau yn ôl eich diddordeb cerddorol chi.

Bydd y rhaglen hyblyg a heriol hon yn rhoi'r cyfle i chi arbenigo a datblygu'ch diddordebau cerddorol eich hun wrth i chi gael addysg eang a chadarn mewn estheteg, dadansoddi, cyfansoddi, ethnogerddoleg, hanes cerddoriaeth a pherfformio.

Yn ogystal â sylfeini allweddol addysg ym maes cerddoriaeth, mae'r rhaglen hon yn cynnig ystod hyblyg ac amrywiol o fodiwlau. Mae hyblygrwydd cynyddol y rhaglen hon, o gymharu â'n rhaglen BMus, yn caniatáu i chi addasu'ch rhaglen astudio yn ôl eich diddordebau chi.

Gall myfyrwyr ar y rhaglen hon ddewis gwneud modiwlau arbenigol mewn cyfansoddi. Mae goruchwyliaeth un-i-un ar gael os byddwch yn dewis dilyn un neu ddau o'r prosiectau ysgrifenedig mawr sydd ar gael ym modiwlau'r Traethawd Hir, Dadansoddi Cerddoriaeth neu Ethnogerddoleg.

Os byddwch yn dewis gwneud modiwl Sgiliau Cerddorol Ymarferol, bydd eich hyfforddiant offerynnol yn cael ei ariannu'n llawn ar gyfer eich prif offeryn astudio.



**Mae'r Ysgol Cerddoriaeth yn cynnig amgylchedd lle rwy'n dod i gysylltiad ag ystod eang o lwybrau cerddorol, rhai nad oeddwn i hyd yn oed yn gwybod amdanyn nhw nes i mi gyrraedd.**

Fel un sy'n chwarae offerynnau taro, rwy'n cael cyfle i brofi Lanyi – drymio o Orllewin Affrica, Pandeiro (Brasil), drymio jazz ac ati. Mae'r rhain, ar ben yr hyfforddiant stiwdio chyfansoddi, yn rhoi persbectif eang i mi ar yr hyn rydw i am ei wneud, a'r hyn rwy'n gallu ei wneud, ym myd cerddoriaeth.

Rwy'n hoff iawn o ba mor agos rydyn ni'n gweithio gyda myfyrwyr eraill a staff. Mae'r staff yn neis ac yn garedig iawn, ac yn barod iawn i helpu, ac fe wnaeth hynny i mi deimlo bod croeso mawr i mi fan hyn.

**Jimmy Yeung,** Cerddoriaeth (BMus)

# **Rhaglenni gradd** cydanrhydedd

## Cerddoriaeth a Llenyddiaeth Saesneg (BA)

**Côd UCAS: WQ33**

Astudiwch hanes llenyddiaeth Saesneg, o gyfnod yr Oesoedd Canol cynnar hyd at yr unfed ganrif ar hugain, ochr yn ochr â cherddoriaeth.

Mae'r rhaglen hyblyg a heriol hon, wedi'i haddysgu ar y cyd â'r Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth, yn rhoi'r cyfle i chi arbenigo a datblygu'ch diddordebau eich hun wrth i chi gael addysg eang a chadarn mewn estheteg, dadansoddi, cyfansoddi, ethnogerddoleg, hanes cerddoriaeth a pherfformio.

Bydd modiwlau Saesneg yn caniatáu i chi fynd y tu hwnt i'r gair printiedig, gyda phynciau fel ffilm, celf, cerddoriaeth, hanes ac iaith. Fel myfyriwr cydanrhydedd, byddwch yn gweld bod meysydd a safbwyntiau ategol, yn ogystal â sgiliau, sy'n aml yn cysylltu pynciau, boed yn ddadansoddiad beirniadol, yn gyd-destunau hanesyddol neu'n ymchwil ddiweddar. Cewch eich annog i ymuno ag ensembles cerddorol a arweinir gan ein Hysgol, gan gynrychioli ystod eang o repertoires a thraddodiadau cerddorol.

## Mathemateg a Cerddoriaeth (BA)

**Côd UCAS: GW13 neu GW31 gyda blwyddyn dramor**

Archwiliwch y cysylltiad hanesyddol rhwng mathemateg a cherddoriaeth. Darganfyddwch sut mae gan ramadeg cerddoriaeth, fel rhythm, traw a chordiau, sylfeini mathemategol; sut mae strwythur a phatrymau, fel cymesuredd, yn gyffredin i'r ddwy ddisgyblaeth; a sut mae'r ymdeimlad organig o dwf sydd i'w weld yn nilyniant Fibonacci wedi bod yn fframwaith apelgar i lawer o gyfansoddwyr, o Debussy i Peter Maxwell Davies.

Byddwch yn ymgyfarwyddo â chysyniadau mathemategol haniaethol, dadlau rhesymegol a rhesymu diddwythol, ynghyd â phortffolio o sgiliau sy'n gysylltiedig â sgiliau cerddorol llythrennog, gan gynnwys perfformio, cyfansoddi, cerddoleg hanesyddol a beirniadol, estheteg, ethnogerddoleg a dadansoddi.

## Cymraeg a Cherddoriaeth (BA)

**Côd UCAS: QW53**

Darganfyddwch gyfoeth y Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i diwylliant, ochr yn ochr â cherddoriaeth. Nod y cwrs hwn, sydd wedi'i addysgu ar y cyd ag Ysgol y Gymraeg, yw cynhyrchu graddedigion sydd â dealltwriaeth academaidd ac ymarferol drylwyr o'r Gymraeg, lefel uchel o sgiliau mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar, ac addysg gerddorol eang.

Bydd modiwlau cerddoriaeth yn caniatáu i chi arbenigo a datblygu'ch diddordebau cerddorol a bydd modiwlau'r Gymraeg yn datblygu'ch sgiliau allweddol ym meysydd iaith a llenyddiaeth. Mae'r rhaglen hon yn addas i fyfyrwyr sydd wedi astudio Cymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith.

## Cerddoriaeth ac Iaith Fodern (BA)

**Côd UCAS: R753**

Astudiwch iaith, llenyddiaeth a hanes Ffrangeg, Sbaeneg neu Tsieinëeg wrth gael addysg eang mewn cerddoriaeth.

Ein nod yw eich helpu i ddod yn 'ddinesydd byd-eang' sy'n meddwl yn feirniadol ac yn greadigol, yn deall ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol, ac sydd â chyfoeth o sgiliau trosglwyddadwy.

Byddwch yn datblygu sgiliau cyfathrebu a meddwl beirniadol lefel uchel, ac yn meithrin gwydnwch ac annibyniaeth.

Byddwch hefyd yn cymryd rhan mewn astudiaethau cerddorol creadigol ac ymarferol.

Treulir eich trydedd flwyddyn yn astudio neu'n gweithio mewn gwlad lle defnyddir eich dewis iaith. Bydd y profiad hwn yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a phersonol, a llwybr i ddealltwriaeth ddyfnach yn gymdeithasol a diwylliannol, cyfeillgarwch sy'n croesi ffiniau ac antur.



**Mae Caerdydd yn ddinas wych i fod yn rhan ohoni - mae'n ddinas ddelfrydol i fyfyrwyr.**

Mae llwyth o gyfleoedd perfformio a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth; mae'n fforddiadwy, yn hygyrch, ac mae digonedd o bethau i'w gwneud.

**Emily Connor,** Cerddoriaeth a Hanes (BA)

# Ceisiadau

I gael eich ystyried ar gyfer mynediad i unrhyw rai o'r cyrsiau israddedig a gynigir gan yr Ysgol Cerddoriaeth, dylech wneud cais drwy UCAS.

## Clyweliadau

Ar ôl inni gael cais, byddwn, os yw'n bodloni'n gofynion mynediad, yn gwahodd ymgeiswyr BMus a BA Anrhydedd Sengl i ymweld â'r Ysgol am daith a chlyweliad. Yn ystod yr ymweliad hwn, cewch gyfle i siarad â'r staff a'r myfyrwyr presennol i ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych, gan roi cyfle i ni ddod i'ch adnabod yn well.

Bydd clyweliadau ar ffurf cyfarfod 15 munud unigol gydag aelod o staff, a byddwch yn perfformio darn byr heb gyfeiliant (oni bai eich bod yn ganwr, ac os felly gallwn ddarparu cyfeiliant piano ar gais) ar eich prif offeryn. Bydd trafodaeth fer i ddilyn.

Efallai fod clyweliadau'n teimlo'n frawychus, ond ni ddylai eich atal rhag gwneud cais. Mae llawer o bobl sy'n dod i glyweliad yn dweud cymaint yr oeddent wedi mwynhau'r diwrnod ac mae'n caniatáu inni gael darlun mwy cyflawn ohonoch na'r hyn rydym yn ei gael drwy'r ffurflen UCAS.



## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

**Safon Uwch:**
**BMus a BA Anrhydedd**

AAB-BBB. Rhaid i'r rhain gynnwys Cerddoriaeth.

Bydd ymgeiswyr heb Safon Uwch mewn Cerddoriaeth yn cael eu hystyried fesul achos.

**Cymhwyster Prosiect Estynedig/ Rhyngwladol:** Fel arfer, bydd ymgeiswyr sydd wedi ennill gradd A yn y Cymhwyster Prosiect Estynedig/ Rhyngwladol (EPQ/IPQ) yn cael cynnig un radd yn is na'r cynnig safonol. Sylwer bod yn rhaid bodloni unrhyw ofynion sy'n benodol i'r pwnc o hyd.

**BA Cydanrhydedd**
Ewch i'n gwybodaeth cwrs ar-lein i gael gofynion penodol ar gyfer pob rhaglen cydanrhydedd.

**Bagloriaeth Ryngwladol:** 32-31 yn gyffredinol neu 665 mewn tri phwnc Lefel Uwch. Rhaid i'r rhain gynnwys gradd 6 mewn Mathemateg Lefel Uwch. Bydd ymgeiswyr heb Lefel Uwch mewn Cerddoriaeth yn cael eu hystyried fesul achos.

**Bagloriaeth Cymru:** O fis Medi 2023, bydd cymhwyster newydd o'r enw Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (lefel 3). Bydd y cymhwyster hwn yn disodli'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru). Bydd y cymhwyster yn parhau i gael ei dderbyn yn lle un Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod), heb gynnwys unrhyw bynciau penodol.

**BTEC:** Diploma Estynedig mewn Cerddoriaeth DDM-DMM.

**TGAU:** TGAU (neu gyfwerth): Mathemateg a Saesneg Iaith Gradd C neu Radd 4.

**Gofynion penodol:** Mae disgwyl i bob ymgeisydd fod wedi cyrraedd neu fod wedi dangos tystiolaeth o weithio tuag at Radd 8 mewn un offeryn, neu lais, adeg gwneud y cais.

**Arall:** Ystyrir ymgeiswyr heb Safon Uwch mewn Cerddoriaeth, ar yr amod y gallant ddangos tystiolaeth o sgiliau theori a pherfformio cerddoriaeth priodol (fel Gradd 7 neu 8 mewn Theori Cerddoriaeth) a/neu eu bod yn astudio cymwysterau priodol. Hefyd, rydym yn croesawu ceisiadau gan y rheiny a all fod â chyfuniadau o gymwysterau neu brofiad perthnasol arall o waith/bywyd.

**Saesneg:** Ar gyfer yr ymgeiswyr hynny nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf neu nad ydynt wedi cael rhan sylweddol o'u haddysg yn yr iaith Saesneg, mae'n ofynnol cael tystiolaeth o allu yn Saesneg, e.e. sgôr o 6.5 mewn IELTS gydag o leiaf 5.5 ym mhob categori, neu gymhwyster cyfatebol.




## Sut i ddod o hyd i ni

### Allwedd

- Ysgol Cerddoriaeth
- Y Brifysgol ac Adeiladau'r GIG
- Preswylfeydd myfyrwyr

## Sut i ddod o hyd i'r ysgol

Rydym wedi ein lleoli yng nghanol Campws Parc Cathays, sef taith gerdded fer o ganol y ddinas. Mae'r adeilad yn agos iawn i Orsaf Drenau Cathays, ac mae'n hawdd mynd iddo o neuaddau preswyl y Brifysgol.






**Fyddwn i ddim wedi gallu dewis unrhyw beth arall i'w astudio heblaw cerddoriaeth, gan mai dyna beth rwy'n angerddol amdano.**

Rwy'n hoffi bod yr Ysgol yn gymuned glòs, ac mae hen ddigon o bethau i'w gwneud. Fe wnes i brofiad gwaith gyda Cherddorfa Symffoni Lloegr, yn cynorthwyo rheolwr y gerddorfa. Fe wnes i fwynhau'n fawr, ac roedd yn ddefnyddiol iawn gweld sut maen nhw'n gweithredu'n broffesiynol.

I unrhyw un sy'n ystyried astudio cerddoriaeth yng Nghaerdydd - ewch amdani, fyddwch chi ddim yn difaru ac rydw i wir yn credu na fyddwch chi'n dod o hyd i unman gwell!

**Thomas Hooper,**
Cerddoriaeth (BMus 2022)

---

## Gwybodaeth Gyfreithiol Bwysig

Mae cynnwys y llyfryn hwn yn ymwneud â chylch derbyn myfyrwyr ar gyfer dechrau astudio yn 2024, ac mae'n gywir pan aeth i'r wasg ym mis Mehefin 2023. Fodd bynnag, mae cyfnod hir rhwng argraffu'r llyfryn hwn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno a'u prosesu gennym. Felly, ewch i'n gwefan **www.caerdydd.ac.uk** cyn cyflwyno cais rhag ofn bod unrhyw newidiadau i'r cwrs sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma. Lle bydd gwahaniaeth rhwng cynnwys y llawlyfr hwn a'n gwefan, rhowch flaenoriaeth i gynnwys y wefan, sy'n nodi sut rydym yn bwriadu darparu ein gwasanaethau ar eich cyfer.

Eich gradd: Mae myfyrwyr sy'n cael eu derbyn i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd Prifysgol Caerdydd.

FSC
www.fsc.org
MIX
Paper from responsible sources
FSC® C023480

Mae'r llyfryn hwn wedi'i argraffu ar bapur o ffynonellau cynaliadwy, gan ddefnyddio inc o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r prosbectws a'r broses weithgynhyrchu wedi'u hardystio gan yr FSC®. Mae'r argraffwyr wedi'u hachredu yn ôl safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig. rhif. 1136855

Gellir trefnu i'r prosbectws hwn fod ar gael mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys print mawr (testun), mewn Braille neu ar dâp sain/CD.

I ofyn am gopi mewn fformat arall, cysylltwch â Laura Roberts:

Ffôn: **029 2087 4455**
Ebost: **RobertsL9@cardiff.ac.uk**

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

**I gael rhagor o wybodaeth am yr Ysgol Cerddoriaeth ewch i'n gwefan:**

**Cysylltu â ni**

Prifysgol Caerdydd
31 Heol Corbett
Caerdydd
CF10 3EB
Y DU

Ebost: **musicschool@cardiff.ac.uk**

Ffôn: **029 2087 4816**

**Cadw mewn cysylltiad**

CUSchoolMusic

@cardiffunimusic

@cardiffunimusic

MUSIC/0624